Dan 5 oed

# MIRI MESUR

Diwrnod y Rhif

## Ewch ati i goginio ar gyfer Diwrnod Rhifau!

### Sut i godi arian

Ewch ati i grasu danteithion blasus yn y dosbarth neu gartref gyda mam a dad, a'u gwerthu mewn arwerthiant cacennau yn yr ysgol i godi arian i'r NSPCC.

Gallech wneud dewis o gacennau a bisgedi (myffins, cacennau bach, cwcis) a rhoi thema Diwrnod Rhifau go iawn iddyn nhw drwy eu haddurno â digidau. Mae'n amser dechrau pwyso a mesur!



### Bydd yn annog disgyblion i wneud y canlynol:

- Ymarfer eu sgiliau mesur drwy ddilyn ryseitiau. Beth am roi cynnig ar ein myffins ffrwythau blasus?

### Myffins Ffrwythau – digon i wneud 12 myffin

Bydd arnoch angen:

- 225g o flawd codi
- 1 llond llwy de o bowdwr codi
- 50g o siwgr brown
- 175ml o lefrith
- 75g o fenyn (wedi'i doddi)
- 1 wy
- 200g o ffrwythau wedi'u torri'n fân

1. Cymysgwch y blawd, y powdwr codi, y siwgr, y llefrith, y menyn a'r wy gyda'i gilydd tan nad oes unrhyw lympiau ar ôl.
2. Ychwanegwch 200g o ffrwythau wedi'u torri'n fân a'u cymysgu i mewn.
3. Codwch y gymysgedd i mewn i duniau myffin wedi'u hiro.
4. Craswch nhw yn y popty ar wres o 200oC am 15-20 munud neu nes eu bod wedi troi'n lliw brown golau.

**#numberday**

NSPCC

Oxford OWL

*Supported by OXFORD UNIVERSITY PRESS

©NSPCC 2023. Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr 216401, Yr Alban SC037717 a Jersey 384. J20230084.

*Number Day is supported by Oxford University Press, led by NSPCC.